# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Adroddiad ar y Bil Mordwyo Morol (Rhif 2) – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## Cyflwyniad

Ar 17 Ionawr 2013, ystyriodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd femorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â darpariaethau yn y Bil Mordwyo Morol (Rhif 2) sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Peilota 1987, Deddf Harbyrau 1964 a Deddf Llongau Masnach 1995, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cytunodd i roi gwybod i'r Cynulliad **nad oes ganddo wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.**

Ceir lincs i'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn y papur hwn yn yr adran olaf : 'Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol'.

## Cefndir

Mae Bil Mordwyo Morol (Rhif 2) Llywodraeth y DU ('y Bil') yn cael ei ystyried gan Senedd y DU ar hyn o bryd.

Diben rhai adrannau o'r Bil hwn yw deddfu mewn meysydd cymhwysedd sydd wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ofynnol, yn ôl confensiwn, bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn ystyried cydsynio â hyn. Mae'r Cynulliad yn gwneud hyn drwy ystyried cynnig cydsyniad deddfwriaethol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am gynigion cydsyniad deddfwriaethol i'w chael yn hysbysiad hwylus y Gwasanaeth Ymchwil *Cyfres y Cyfansoddiad: 6 – Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol*.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi ei ddrafftio fel a ganlyn:

> Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Mordwyo Morol (Rhif 2), sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Peilota 1987, Deddf Harbyrau 1964 a Deddf Llongau Masnach 1995, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ('y memorandwm') ar 21 Rhagfyr 2012 sy'n esbonio hyn mewn rhagor o fanylder.

Yn bennaf, mae'r memorandwm yn nodi bod y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais i gael cydsyniad ar eu cyfer wedi'u cynnwys yn y cymalau a ganlyn:

- Cymalau 1-4 – peilota
- Cymalau 5 a 6 – Awdurdodau Harbwr
- Cymal 7 – Cwnstabliaid Porthladd
- Cymal 8 – awdurdodau goleudy cyffredinol
- Cymal 10 – gofynion o ran criwio llongau
- Cymal 11 – marcio llongddrylliadau

Mae'r elfennau hyn yn y Bil yn ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Peilota 1987, Deddf Harbyrau 1964 a Deddf Llongau Masnach 1995, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn gyffredinol, nid yw 'morgludiant', 'hawliau a rhyddid mordwyo' a 'harbyrau, dociau, pierau a llithrfeydd' yn feysydd cymhwysedd a ddatganolwyd. Fodd bynnag, mae rhai agweddau wedi'u datganoli, a chaiff y rhain eu diffinio yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* fel a ganlyn:

- harbyrau, dociau, pierau a llithrfeydd y mae eu hangen yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y diwydiant pysgota, ar gyfer hamdden neu ar gyfer cyfathrebu rhwng mannau yng Nghymru (neu ar gyfer dau neu ragor o'r dibenion hyn);
- rheoleiddio, at ddibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion neu les anifeiliaid neu'r amgylchedd, unrhyw harbyrau, dociau, pierau a llithrfeydd yng Nghymru.
- mewn perthynas â rheoleiddio'r defnydd o lestrau sy'n cludo anifeiliaid at ddibenion diogelu iechyd dynol, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion neu les anifeiliaid neu'r amgylchedd;
- mewn perthynas â rheoleiddio gweithfeydd a allai rwystro neu beryglu mordwyo; ac
- mewn perthynas â llongddrylliadau hanesyddol.

**Diben y polisi**

Mae'r memorandwm yn nodi diben y polisi yn fwy manwl. Ceir crynodeb byr yn y blwch isod.

| **Crynodeb o ddiben y polisi** |
|---|
| Mae'r memorandwm yn datgan yr hyn a ganlyn: |
| 'Bil aelod preifat yw'r Bil Mordwyo Morol. Mae'r Bil yn gwneud rhai newidiadau yn y |

Deddfau presennol ynglŷn â hwylio llongau yn ddiogel i mewn i harbyrau, gan gynnwys peilota, cwnstabliaid porthladd a marcio llongddrylliadau. Bwriad y Bil yw gwneud y prosesau sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hyn yn llai beichus tra'n sicrhau lefel uchel o ddiogelwch mewn porthladdoedd.'

## Barn y rhanddeiliaid

Mae'r wybodaeth a ganlyn wedi'i seilio ar dystiolaeth a gyflwynwyd i Senedd y DU.

Mae Maritime UK[1] wedi datgan ei fod yn cefnogi'r Bil. Nid yw wedi gwneud sylw ar y materion datganoledig, ac mae wedi canolbwyntio ar y broses yn Senedd y DU.

Mae'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol wedi mynegi pryderon am y Bil. Nid yw wedi gwneud sylw ar yr agweddau datganoledig, ac mae wedi canolbwyntio ar y broses yn Senedd y DU.

## Casgliad

Nid yw'n ymddangos bod barn rhanddeiliad yn anghytuno â'r datganiad a ganlyn a wna Llywodraeth Cymru yn y memorandwm:

> Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn o fewn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng deddfu mwyaf priodol a chymesur ar gyfer galluogi'r darpariaethau i fod yn gymwys o ran Cymru, a sicrhau cysondeb yn y modd y rheolir harbyrau a diogelwch llongau ledled Cymru a Lloegr. Er bod y Bil yn gwneud rhai darpariaethau mewn meysydd lle mae'r cymhwysedd wedi ei ddatganoli, mae cysylltiad agos rhwng y darpariaethau hynny a meysydd cymhwysedd nas datganolwyd i Gymru, ac oherwydd eu natur gydgysylltiedig, y ffordd fwyaf effeithiol o yrru ymlaen â'r darpariaethau yw gyda'i gilydd yn y Bil hwn.

Er bod y Gymdeithas Hwylio Frenhinol wedi mynegi pryderon am agweddau ar y Bil, dim ond ychydig o feysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rhanddeiliaid eraill wedi datgan eu bod yn cefnogi'r Bil.

Cytunodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i roi gwybod i'r Cynulliad nad yw'n gwrthwynebu defnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru

'

[1] Mae Maritime UK yn gynghrair o saith sefydliad mawr ym maes gwasanaethau morwrol; mae'n cynrychioli'r sector morgludiant, y sector porthladdoedd, a'r sector busnes morwrol.

**Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol**

- Mae'r **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** ar gael yn: http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=241809&ds=1/2013

- Mae'r **Bil Mordwyo Morol (Rhif 2)** ar gael ar wefan Senedd y DU: http://services.parliament.uk/bills/2012-13/marinenavigationno2.html

- Mae **Deddf Peilota 1987** ar gael ar wefan legislation.gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1987/21/contents

- Mae **Deddf Harbyrau 1964** ar gael ar wefan legislation.gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/40

- Mae **Deddf Llongau Masnach 1995** ar gael ar wefan legislation.gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/21/contents

- Safbwynt y **Gymdeithas Hwylio Frenhinol**: http://www.rya.org.uk/newsevents/news/Pages/RYAcallsforrecreationalboatersviewsongovernmentproposaltogiveunrestrictedpowertoharbourauthorities.aspx

- Safbwynt **Maritime UK**: http://www.maritimeuk.org/2012/10/marine-navigation-bill-a-helpful-contribution/

- Mae **Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil** *Cyfres y Cyfansoddiad: 6 – Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol* ar gael yn: http://www.assemblywales.org/cy/qg07-0006.pdf

- Gellir gweld y **Rheolau Sefydlog** yn http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-assembly-guidance.htm (Mae Rheol Sefydlog 29 yn pennu'r broses ar gyfer ystyried memorandwm cydsyniad deddfwriaethol).